## ATODLEN 4

Rheoliad 28

## LLADD ANIFEILIAID AC EITHRIO'R RHAI Y MAE'R RHEOLIAD UE YN GYMWYS IDDYNT

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon—

(a) ystyr "anifail" ("*animal*") yw—

(i) ymlusgiaid ac amffibiaid;

(ii) infertebratau; neu

(iii) dofednod, cwningod neu ysgyfarnogod a leddir yn rhywle heblaw mewn lladd-dy, gan eu perchennog ar gyfer eu bwyta gartref yn breifat gan y perchennog; a

(b) mae i'r termau "lladd", dofednod", "ffrwyno" a "stynio", yn eu trefn, yr un ystyron a roddir i'r termau "killing", "poultry", "restraint" a "stunning" yn y Rheoliad UE.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 20.5.2014, gweler **rhl. 1(c)**

### Cwmpas

**2.** Yn ddarostyngedig i baragraff 3, mae'r Atodlen hon yn gymwys i ladd anifeiliaid sy'n cael eu bridio neu'u cadw i gynhyrchu cig, crwyn neu gynhyrchion eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 4 para. 2 mewn grym ar 20.5.2014, gweler **rhl. 1(c)**

### Esemptiadau

**3.** Nid yw'r Atodlen hon yn gymwys i anifeiliaid a leddir—

(a) o ganlyniad i unrhyw weithred a wneir yn gyfreithlon o dan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. ;

(b) yn ystod gweithgareddau hela neu bysgota hamdden; neu

(c) yn ystod digwyddiadau chwaraeon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 4 para. 3 mewn grym ar 20.5.2014, gweler **rhl. 1(c)**

### Lladd heb beri dioddefaint diangen

**4.**—(1) Ni chaiff neb sy'n ymwneud â ffrwyno, stynio neu ladd anifail—

(a) achosi unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw; neu

(b) caniatáu i'r anifail hwnnw brofi unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint diangen.

(2) Ni chaiff neb ymwneud â ffrwyno, stynio neu ladd anifail onid oes gan y person hwnnw'r wybodaeth a'r medrusrwydd angenrheidiol i gyflawni'r gweithrediadau hynny heb beri dioddefaint diangen ac yn effeithlon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 4 para. 4 mewn grym ar 20.5.2014, gweler **rhl. 1(c)**

**Gwaedu dofednod, cwningod neu ysgyfarnogod ar gyfer eu bwyta gartref yn breifat**

**5.** Rhaid i ddofednod, cwningod neu ysgyfarnogod a waedir gan eu perchennog y tu allan i ladd-dy, ar gyfer eu bwyta gartref yn breifat gan y perchennog—

(a) cael eu stynio cyn eu gwaedu yn unol â'r dulliau a'r gofynion penodol ym Mhenodau I a II o Atodiad I, a phan fo'n briodol, Rhan 5 o Atodlen 2; a

(b) cael eu gwaedu yn ddi-oed ar ôl eu stynio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 4 para. 5 mewn grym ar 20.5.2014, gweler **rhl. 1(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 22(1A) inserted by S.I. 2023/1294 Sch. 3 para. 9(3)(a)
- reg. 22(5) inserted by S.I. 2023/1294 Sch. 3 para. 9(3)(b)